PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 29 IONAWR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali, Derbyshire, Goddard, Jacobsen, Lancaster, Robson a/ac Taylor |

20 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Davies a Wood.

21 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

22 : COFNODION

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd a 4 Rhagfyr 2018 a 8 Ionawr 2019 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

23 : HYSBYSEBU LLAWN FFRWDIO CERBYD HACNI

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod cais wedi'i dderbyn am hysbysebu lifrai llawn ar gerbydau hacni sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn megis y Peugeot Partner a'r Euro Cab. Ar hyn o bryd dim ond cerbydau sy'n bodloni Amodau Ffitrwydd Metropolitan Llundain a ganiateir i hysbysebu lifrai'n llawn.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a sylwadau gan yr ymgeisydd, Mr Karl Maresch o Ubiquitous Ltd. Dywedwyd wrth yr aelodau mai dim ond 7 cerbyd sy'n gweithredu yn y ddinas a ganiateir i hysbysebu lifrai'n ar hyn o bryd. Fodd bynnag, caniateir hysbysebu 'superside' ar gerbydau eraill. Mae perchenogion tacsis yn derbyn incwm o rhwng £1000 a £1500 y flwyddyn i hysbysebu lifrai'n llawn ac roedd rhywfaint o alw yn y maes i'w ganiatáu ar gerbydau sy'n hygyrch i ddefnyddwyr olwyn.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod cerbydau hacni yng Nghaerdydd yn ddu gyda boned gwyn er mwyn helpu'r cyhoedd i'w nodi'n gerbydau trwyddedig. Wrth benderfynu ar gais am hysbysebu lifrai llawn yn 2001 credodd y Pwyllgor i siâp arbennig sy'n bodloni Amodau Ffitrwydd y Fetropolitan ei gwneud yn hawdd nodi'r cerbydau hynny, o'u cymharu â cherbydau eraill sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn a cheir salŵn safonol eraill.

Nodwyd cymhariaeth o'r cyfyngiadau lifrai llawn mewn rhai awdurdodau lleol eraill yn yr adroddiad. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried goblygiadau'r cyfyngiad cyfredol sy'n ymwneud â ffenestri cefn cerbydau trwyddedig yng Nghaerdydd.

Dywedodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru wrthi'n gwneud ymarfer ymgynghori ac y byddai polisïau sy'n ymwneud â safonau llogi preifat a cherbyd hacni'n cael eu hadolygu gerllaw. Ni nododd yr ymarfer ymgynghori unrhyw gynigion penodol o ran hysbysebu. Caiff adroddiad ar yr ymarfer ymgynghori ei ddwyn gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

Trafododd yr Aelodau y cais.  Er y cefnogodd nifer o Aelodau'r cais, mynegodd pryderon am y ffaith na fyddai'n briodol ystyried newid polisi Caerdydd ar yr adeg hon gan fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar newidiadau i bolisïau ar hyn o bryd. Hefyd credodd yr Aelodau fod hysbysebu lifrai llawn ar gerbydau sy'n hygyrch i ddefnyddwyr olwyn yn debygol o ddrysu'r cyhoedd ac felly byddai goblygiadau o ran diogelwch y cyhoedd.

PENDERFYNWYD – Gwrthod y cais am hysbysebu lifrai llawn ar gerbydau sy'n hygyrch i ddefnyddwyr olwyn.

24 : MATERION BRYS (OS O GWBL)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am